# e:cylchlythyr

## Gwanwyn / Haf 2014

Biodiversity Network North East Wales
Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Dwyrain Cymru



## Cynnwys


**Tudalen 1** •Prosiect Gwenyn Cydweithredol

**Tudalen 2** •Prosiect Gwenyn Cydwithredol (Parhad)
•Wythnos bioamrywiaeth Cymru

**Tudalen 3** •Ceidwad Amffibiad ac Amlusgiaid Newydd i Sir y Fflint
•Adolygiad Gweithdai Bioddiogelwch.

**Tudalen 4** •Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy – Ymosodiad 2014!
•Cysylltu â ni


## Prosiect Gwenyn-Cydweithredol

Prosiect wedi'i ariannu gan y Cynllun Datblygu Gwledig sy'n ceisio gwella cynefinoedd i wenyn yng Ngogledd Cymru, gan annog awdurdodau lleol a cheidwaid gwenyn i gydweithio. Yn ein hardal ni, mae Swyddogion Bioamrywiaeth Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint wedi bod yn gweithio ar greu ardaloedd sy'n galluogi peillio ar dir cyhoeddus fel parciau lleol ac ar diroedd ysgolion. Wrth i'r prosiect ddod i'w derfyn, dyma sydd wedi bod yn mynd ymlaen ym mhob sir:



**Conwy**

Fe gyflwynodd Swyddog Bioamrywiaeth Conwy nifer o brosiectau amrywiol i'r tîm prosiect yn ymwneud â phlannu peillyddion ar draws wardiau gwledig yng Nghonwy. Cafwyd syniadau am brosiectau gan ysgolion, grwpiau cymunedol ac Asiant Cefnffordd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Wardeiniaid y Cynghorau.

Roedd yr holl ysgolion a gyflwynodd y syniadau yn llwyddiannus mewn caffael cyllid ar gyfer prosiectau plannu yn cynnwys un ym Mharc Cenedlaethol Eryri wedi'i reoli gan y Swyddog Ecosystemau a Newid Hinsawdd. Roedd y prosiectau ysgol yn cynnwys cyllid ar gyfer plannu gwrychoedd cynhenid, coed ffrwythau a bylbiau cynhenid newydd. Mewn rhai achosion roedd y cyllid yn cynnwys cymorth gan Garddio Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru i weithio gyda disgyblion, mewn achosion eraill roedd yr ysgolion yn rheoli'r prosiectau eu hunain. Dyma brosiect cymunedol ar ymylon ffyrdd yn elwa o gyllid ar gyfer planhigion plwg, gyda dau brosiect ymyl y ffordd eraill wedi eu rheoli gan yr Asiantaeth Cefnffordd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn darparu cartrefi i gannoedd o glychau'r gog cynhenid a phlanhigion yn gyfoethog o neithdar. Diolch i'r prosiect bydd pentref gwledig bychan Llanfair Talhaiarn yn berwi o friallu ac eirlys y flwyddyn nesaf a fydd yn cael eu hategu gan blanhigion cynhenid wedi eu plannu'n Ddol Bach sef gwarchodfa natur y Cyngor sy'n goedlan fechan gyfagos. Bydd Parc Gwydyr yn orlawn o eirlys ddechrau'r gwanwyn gan gynnig ffynhonnell gynnar o neithdar i wenyn.



*Coed ffrwythau Ysgol Trelogan*

**Sir Ddinbych**

Mae'r prosiect yn Sir Ddinbych wedi bod yn eithaf amrywiol, yn cynnwys sawl grŵp a safle. Yng Nghorwen, mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi canolbwyntio ar yr ardaloedd o gwmpas yr orsaf reilffordd newydd: bydd ymwelwyr yn cerdded trwy ddol brydferth o flodau gwyllt ar eu ffordd i'r dref diolch i hadau a gyflwynwyd fel rhan o'r prosiect. Mae bylbiau cynhenid wedi eu plannu hefyd, ynghyd â rhosyn y graig, lotus corniculatus a mefus gwyllt ar arglawdd y rheilffordd ei hun. Ym mhrif faes parcio Corwen, mae rhagor o wlâu llwyni wedi eu plannu er mwyn gwella eu gwerth ar gyfer peillio. Yn Llangollen, mae gardd hanesyddol Plas Newydd wedi derbyn perlysiau llawn arogl, sy'n atynnu pryfetach yn ogystal ag ymwelwyr dynol, tra bod glaswellt calchaidd Eglwyseg yng nghanol y dref wedi cael ei ail-greu mewn plannwr. Mae grwpiau cymunedol wedi cymryd rhan hefyd ac mae Grŵp Cadwraeth Henllan wedi plannu gwlâu blodau a thir ym mynwent y pentref.

**Parhad ar dudalen 2.....**

## Dywedwch eich barn wrthym!

Hoffem glywed eich meddyliau am eich newyddlenni. Gallwch roi adborth drwy'r arolwg byr hwn ar

www.surveymonkey.com/s/Q99NJFL.

...Parhad ar dudalen 1.....

Mae ysgol leol wedi cymryd rhan hefyd trwy dderbyn planhigion i wella eu gardd bywyd gwyllt. Ac yn olaf mae nifer o safleoedd cyhoeddus yn eiddo'r Cyngor ar fin derbyn planiad sy'n atynnu peillio.

**Sir y Fflint**

Mae'r Prosiect Gwenyn Cydweithredol wedi bod yn hynod o fuddiol yn Sir y Fflint o ganlyniad i'r plannu sydd wedi atynnu peillio yn ogystal â'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth y cyhoedd ar y pwnc dan sylw. Mae oddeutu 3kg o hadau blodau gwyllt wedi eu plannu; yn ogystal ag amrywiaeth o ffrwythau a choed eraill sydd o fudd i beillwyr un ai fel planhigion annibynnol neu fel rhan o wrych. Yn ogystal mae llwyni a phlanhigion perlysiau, ynghyd â bylbiau cynhenid a phlanhigion plwg wedi eu plannu mewn llawer o safleoedd. Mae hyd at 13 safle mynediad cyhoeddus wedi eu gwella. Mae'r prosiect hefyd wedi derbyn y budd ychwanegol o gefnogi cynlluniau grwpiau eraill trwy gyflenwi planhigion a hadau, er enghraifft yn Nhreuddyn lle rhoddir help llaw i Pennaf a Clwyd Alyn gyda thair sesiwn plannu gymunedol cyn diwedd 2014. Hyd yma mae teuluoedd lleol wedi helpu i blannu gwrychoedd yn ogystal â briallu sawrus cynhenid a llygad y dydd mawr mewn ardal sydd wedi'i israddio gan ddatblygiad diweddar. Yn yr Wyddgrug mae cyllid y prosiect wedi helpu'r Cyngor Tref a phartïon â diddordeb i blannu hadau mewn ardal ac i blannu rhai coed/llwyni buddiol fel rhan o fenter newydd y maent yn gobeithio ei gyflwyno ledled y Wyddgrug dros y blynyddoedd nesaf i hyrwyddo rhannau gwyrdd y dref. Mae chwe ysgol gynradd yn y sir yn hynod ddiolchgar ar ôl cael eu dewis i gymryd rhan yn y prosiect o ganlyniad i'w diddordeb mewn ysgolion eco ac mewn plannu ar gyfer bywyd gwyllt; mae'r plant wedi mwynhau helpu i blannu ac edrych ar ôl y coed a'r planhigion. Mae hi wedi bod yn braf gweld y coed wnaethon ni eu plannu ym mis Chwefror dal yna ac yn iach a gyda dail arnynt ac mewn rhai achosion yn blaguro yn ystod ymweliadau mwy diweddar ym mis Ebrill/Mai.


*Plannu gwrych yn Nhreuddyn*

Mae oddeutu £10,000 wedi'i wario ym mhob sir. Penderfynwyd ar y dewis o blanhigion peillio o ganlyniad i'r Adroddiad Cynefin ac Ecoleg a gafodd ei ysgrifennu gan ymgynghorydd fel rhan o'r prosiect. Mae'r elfen blannu o'r prosiect Gwenyn Cydweithredol yn rhan o brosiect cadw gwenyn mwy ac yn cael ei ariannu gan y Cynllun Datblygu Gwledig wed'ii arwain gan Grŵp Gweithredu Lleol Echel 4 Conwy. Dyma'r Grŵp Gweithredu Lleol yn penodi Menter a Busnes i reoli'r prosiect.

## Wythnos Bioamrywiaeth Cymru

Mae Wythnos Bioamrywiaeth Cymru yn rhedeg rhwng dydd Sadwrn 7 Mehefin a dydd Sul 15 Mehefin. Mae llawer yn mynd ymlaen yng Ngogledd Ddwyrain Cymru eleni ac mae gennym wythnos lawn o weithgareddau bywyd gwyllt i bobl gymryd rhan ynddynt!

WythnosBioamrywiaethCymru
WalesBiodiversityWeek
7 -15 Mehefin /June 2014



| Dyddiad | Digwyddiad | Gwybodaeth Bellach |
|---|---|---|
| 6 – 8 Mehefin | Loggfest, Loggerheads, Sir Ddinbych/ar ffin Sir y Fflint | Gweler y wefan/facebook am fwy o fanylion. |
| 9 Mehefin | Helfa pryfetach ar ôl ysgol, Parc Gwledig Loggerheads Sir Ddinbych | Am ragor o wybodaeth neu i archebu lle ffoniwch 01352 810586 |
| 10 Mehefin | Safari Nos yng Nghoed y Nant 8-10:30pm (o gwmpas hynny), Sir Ddinbych | Cyfarfod ym maes parcio Stryd y Farchnad, Llangollen.<br><br>Am ragor o wybodaeth neu i archebu lle ffoniwch 01352 810586 |
| 11 Mehefin | Taith gerdded blodau gwyllt, Minera, 10am-12pm, Wrecsam | Cyfarfod ym maes parcio Parc Gwledig Minera SJ272511 |
| 12 Mehefin | Bywyd y Nos yn Nercwys, 8.30-11pm, Sir Ddinbych/ffin Sir y Fflint | Am ragor o wybodaeth neu i archebu lle ffoniwch 01352 810586 |
| 14 Mehefin | Diwrnod Llawn Hwyl i'r Teulu, 10am -3pm, Plas Newydd, Llangollen, Sir Ddinbych | Galw heibio |
| 15 Mehefin | Diwrnod Hwyl ar gyfer Peillio a theithiau cerdded i weld bywyd gwyllt ym Mharc Wepre, Sir y Fflint | Gwybodaeth bellach 01352 703263<br><br>Galwch heibio rhwng 10am a 3pm |

# Ceidwad Amffibiad ac Ymlusgiaid Newydd i Sir y Fflint

Mae elusen Cenedlaethol Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid a Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint wedi penodi Ceidwad newydd i ddatblygu ymwybyddiaeth cadwraeth amffibiaid ac ymlusgiaid yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Bydd y swydd yn cefnogi Ceidwaid Cefn Gwlad Sir y Fflint gyda chynefinoedd arfordirol a gwledig i greu a chynnal safleoedd o ddewis er budd ein hamffibiaid a'n hymlusgiaid.

Mae Sir y Fflint, a Gogledd Ddwyrain Cymru yn gyffredinol, yn ardal hynod o bwysig ar gyfer amffibiaid ac ymlusgiaid ac sy'n cefnogi






rhywogaethau prin ac wedi eu gwarchod fel madfall y twyni, llyffant cefn felyn a'r fadfall dŵr gribog.

Mandy Cartwright yw'r ceidwad newydd a bydd llawer yn gyfarwydd â hi o ganlyniad i'w swydd flaenorol. I wybod mwy am ei gwaith, cysylltwch â Mandy:
mandy.cartwright@arc-trust.org, 07979 718 676

# Gweithdai Bioddiogelwch yn Codi Ymwybyddiaeth o Rywogaethau Di-Gynhenid

Yn Ionawr a Mawrth eleni cynhaliwyd Gweithdai Bioddiogelwch a Rhywogaethau Ymosodol yn Neuadd Pentref Treuddyn. Roedd y ddau weithdy yn boblogaidd iawn....gyda nifer o bobl yn mynychu o bob cefndir gan gynnwys myfyrwyr prifysgol, staff a gwirfoddolwyr o sefydliadau cadwraeth, staff awdurdod lleol, aelodau o'r cyhoedd gyda diddordeb yn y pwnc, ymgynghorwyr ecoleg a chontractwyr.


Roedd y gweithdai yn ymdrin â rhai o'r rhywogaethau sy'n peri'r problemau mwyaf yng Ngogledd Ddwyrain Cymru a Phrosiect Rhywogaethau Di-Gynhenid Ymosodol Dyfrdwy, yn ogystal â bygythiadau eraill fel afiechyd ffwngaidd mewn amffibiaid a phla ac afiechydon coed, yn ogystal â mesurau bioddiogelwch ymarferol a ellir ymgymryd â hwy i leihau'r defnydd o'r rhain. Cafodd pob unigolyn a fynychodd y gweithdai Becyn Bioddiogelwch yn cynnwys offer sylfaenol sy'n eu galluogi i roi'r hyn a ddysgwyd yn y gweithdy ar waith.

Y gobaith yw bod gweithdai fel hyn ynghyd â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth eraill yn cynyddu proffil materion bioddiogelwch ac yn cyfrannu'n gyffredinol at wella'r sefyllfa yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

Trefnwyd y gweithdai gan Gynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint gyda siaradwyr hefyd o Gyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru. Cafodd y gweithdai eu hariannu trwy gynllun grant Ansawdd Amgylchedd Lleol Llywodraeth Cymru fel rhan o Brosiect Rheoli Ffromlys Chwarennog Dyffryn Alyn.



Mae ambell i becyn bioddiogelwch ar ôl felly cysylltwch â ni os hoffech gael gafael ar un.



## Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy - Yr Ymosodiad

**Byddwch yn barod i Ddiwrnod Mawr y Ddyfrdwy – Yr Ymosodiad 2014!**

Mae mis o drechu'r ffromlys chwarennog yn cychwyn ar ddydd Gwener, 27 Mehefin a bydd llu o ddigwyddiadau gwirfoddol ar draws dalgylch yr Afon Dyfrdwy ym mis Gorffennaf.

Dyma'r ail Ddiwrnod Mawr y Ddyfrdwy – Yr Ymosodiad, gan adeiladu ar lwyddiant y digwyddiad y llynedd a welodd dros 700 o oriau gwirfoddol er mwyn cael gwared ar y rhywogaethau di-gynhenid ymosodol wrth yr afon mewn un penwythnos yn unig. Eleni, bydd y digwyddiad yn fwy, a hyd yn oed gwell, gyda mwy o gyfleoedd i gymryd rhan.




Mae rhaglen o ddigwyddiadau ar gael gan Lyn Byrne (lynbyrne@wildlifetrustswales.org / 01352 755472). Bydd manylion yn cael ei ychwanegu ar y tudalen Facebook hefyd www.facebook.com/BigDeeDayTheInvasion

## Bywyd ar yr ymyl

Y ffordd y caiff ymylon ein ffyrdd eu rheoli yw un o'r materion mwyaf cynhyrfiol mewn cadwraeth bywyd gwyllt. Mae cychwyn y tymor torri wedi achosi llawer iawn o drafodaeth, cwynion a phryder.

Ers lansio Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Peilliaid yr haf diwethaf, mae Bionet wedi cymryd rhan yn y Gweithlu Peillio a sefydlwyd i weithredu'r cynllun yn enwedig y gwaith ar ymylon ffyrdd.

Ym mhob un o'n siroedd rydym yn gweithio i reoli ein hymylon ffordd mewn modd sy'n fwy cyfeillgar i fywyd gwyllt. Gyda digwyddiadau fel seminar ymylon ffyrdd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, mae'r mater yn derbyn mwy o sylw mewn llywodraeth leol a rhanbarthol. I ddarganfod mwy ewch i: www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Wales-Action-Plan-for-Pollinators <http://www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Wales-Action-Plan-for-Pollinators>



## Parhewch â'r Gwaith Cadwraeth


Cysylltwch â ni

**Wrecsam: emma.broad@wrexham.gov.uk**

**Ffon: 01978 298762**

**Sir y fflint: amy.e.green@flintshire.gov.uk**

**Ffon: 01352 703263**

**Sir Ddynbych: elizabeth.webster@denbighshire.gov.uk**

**Ffon: 01824 708263**

**Conwy: anne.butler@conwy.gov.uk**

**Ffon: 01492 575123**

www.bionetwales.co.uk


**Dilynwch Ni!**

**Os ydych yn hoffi ein tudalen ar Facebook, sef Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru, byddwch yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am brojectau bioamrywiaeth yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Rydym yn llwytho newyddion i'r safle yn eich hysbysu o newyddion cyffrous, digwyddiadau, ffotograffau a phrojectau yn yr ardal. Dyma ffordd syml a chyflym, ffordd sy'n rhad am ddim hefyd, o ddod i wybod pa weithgareddau bioamrywiaeth sy'n digwydd a sut allwch chi gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn o fewn eich sir.**

**Ymhellach, mae gennym gyfrif ar Twitter sy'n debyg i Facebook – gallwch dderbyn newyddion rheolaidd, a gwybodaeth am lwyddiannau a digwyddiadau.**

**Felly, dilynwch ni ar**

**Facebook: www.facebook.com/NEWBionet**

**Twitter: @newbionet**